



Cyngor y Gweithlu Addysg

Rheolau Cofrestru 2017

Ebrill 2017

Cyflwyniad

Enwi a darpariaethau trosiannol

1- (1) O dan Reoliadau 18 a 19 o *Reoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Prif Swyddogaethau) (Cymru) 2015*, Rheoliadau 18A a 19A o *Reoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Prif Swyddogaethau) (Cymru) (Diwygio)* a Rheoliadau 4, 6 a 7 o *Orchymyn Cyngor y Gweithlu Addysg (Cofrestru Gweithwyr Ieuenctid, Gweithwyr Cymorth Ieuenctid ac Ymarferwyr Dysgu Seiliedig ar Waith)* rhaid i bob:

- athro cymwys sy'n cyflawni gwaith penodedig athro mewn ysgol a gynhelir neu ysgol arbennig nas cynhelir yng Nghymru;
- person sy'n darparu addysg mewn neu ar ran sefydliad addysg bellach yng Nghymru (yn ddarostyngedig i'r eithriadau a nodir o dan Reoliad 19);
- gweithiwr cymorth dysgu mewn ysgol sy'n darparu'r gwasanaethau a nodir dan Reoliad 18A(2) o'r Rheoliadau mewn ysgol a gynhelir neu ysgol arbennig nas cynhelir yng Nghymru; a
- gweithiwr cymorth dysgu mewn addysg bellach sy'n darparu'r gwasanaethau a nodir yn adran 16(2) o *Ddeddf Addysg (Cymru) 2014* mewn neu ar ran sefydliad addysg bellach yng Nghymru,
- gweithiwr ieuenctid sy'n darparu gwasanaethau datblygu ieuenctid i neu ar ran corff perthnasol (heblaw fel gwirfoddolwr, ac yn ddarostyngedig i'r eithriad a nodir o dan Reoliad 4(2)); a
- gweithiwr cymorth ieuenctid sy'n darparu gwasanaethau datblygu ieuenctid i neu ar ran corff perthnasol (heblaw fel gwirfoddolwr, ac yn ddarostyngedig i'r eithriad a nodir o dan Reoliad 6(2)); ac
- ymarferydd dysgu seiliedig ar waith sy'n darparu gwasanaethau i neu ar ran corff dysgu seiliedig ar waith (heblaw fel gwirfoddolwr, ac yn ddarostyngedig i'r eithriad a nodir o dan Reoliad 7(2)),

fod wedi'i gofrestru gyda Cyngor y Gweithlu Addysg (CGA).

(2) Mae CGA wrth arfer y grymoedd a drosglwyddwyd iddo gan:

- (a) *Ddeddf Addysg (Cymru) 2014* fel y'i diwygiwyd; a
- (b) *Rheoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Prif Swyddogaethau) (Cymru) 2015*, fel y'i diwygiwyd,

drwy hyn yn gwneud y Rheolau canlynol, y cyfeirir atynt fel *Rheolau Cofrestru 2017*, a gafodd eu cymeradwyo ac a ddaeth i rym ar 1^{af} Ebrill 2017.

- (3) Mae *Rheolau Cofrestru 2016* drwy hyn yn cael eu diddymu, ond byddant yn parhau i fod yn berthnasol ar gyfer cyfarfodydd addasrwydd sydd wedi'u cwblhau'n rhannol ar 1^{af} Ebrill 2017, a lle anfonwyd y llythyr a gyhoeddwyd gan CGA yn unol â Rheol 9 at yr ymgeisydd cyn 1^{af} Ebrill 2017.
- (4) Ac eithrio fel y darperir ar eu cyfer ym mharagraff (3), *Rheolau Cofrestru 2017* fydd yn berthnasol.

Dehongli

2-(1) Yn y Rheolau hyn, oni bai bod y cyd-destun yn mynnu fel arall:

ystyr 'y Ddeddf' yw *Deddf Addysg (Cymru) 2014*, ac unrhyw ddiwygiadau dilynol iddi;

ystyr 'asiant' yw un person (yr asiant) sy'n gwneud trefniadau i berson cofrestredig (y gweithiwr) ddarparu gwasanaethau perthnasol ar gais, neu gyda chaniatâd, cyflogwr perthnasol (boed hynny drwy gcontract ai peidio). Gallai asiantaeth gyflenwi breifat gael ei chynnwys yn nodweddiadol o dan gategori asiant;

ystyr 'yr ymgeisydd' yw person sydd wedi gwneud cais i gael ei gofrestru gyda CGA;

mae i 'corff priodol' yr un ystyr ag yn adran 17(2)(d) o'r Ddeddf;

ystyr 'categoriâu cofrestru' yw 'athro ysgol', 'gweithiwr cymorth dysgu ysgol', 'athro addysg bellach', 'gweithiwr cymorth dysgu addysg bellach', fel y'u diffinnir gan Atodlen 2 i'r Ddeddf, a 'gweithiwr ieuencid', 'gweithiwr cymorth ieuencid' ac 'ymarferydd dysgu seiliedig ar waith' fel y'u diffinnir gan Ran 2 i'r Gorchymyn;

ystyr 'y Pwyllgor' yw Pwyllgor Addasrwydd;

ystyr 'trosedd' yw:

- (a) collfarn;
- (b) rhybuddiad (rhybudd ffurfiol am ymddygiad yn y dyfodol a roddir gan uwch swyddog heddlu, fel arfer mewn gorsaf heddlu, ar ôl i berson gyflawni trosedd. Caiff ei ddefnyddio fel opsiwn amgen i gyhuddo ac erlyn posibl);
- (c) rhybudd (person ifanc y rhoddir ail rybudd ffurfiol a 'therfynol' iddo am ymddygiad yn y dyfodol);
- (d) cerydd (mae cerydd wedi disodli'r rhybuddiad ar gyfer pobl ifanc o dan 18 oed);

ystyr 'CGA' yw Cyngor y Gweithlu Addysg;

ystyr 'datganiad' yw lle bydd ymgeisydd yn gwneud datganiad yn nogfen CGA *Cais i Gofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg (CGA)*, neu mewn man arall;

ystyr 'gorchymyn disgyblu' mewn perthynas â pherson cofrestredig yng Nghymru yw 'cerydd', 'gorchymyn cofrestru amodol', 'gorchymyn atal (gyda neu heb amodau)' neu 'orchymyn gwahardd' o fewn ystyr adran 27 o'r Ddeddf;

ystyr 'y swyddog a awdurdodir yn briodol' yw'r person a benodir gan Brif Weithredwr Cyngor y Gweithlu Addysg i weithredu ar ei ran;

ystyr 'methiant i ddatgan' yw lle bydd ymgeisydd yn methu â gwneud datganiad yn nogfen CGA *Cais i Gofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg (CGA)*, neu mewn man arall pan oedd yn briodol gwneud hynny;

ystyr 'Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer' yw Pwyllgor sydd wedi'i sefydlu o dan Reoliad 22 o'r Rheoliadau;

ystyr 'cyfnod sefydlu' yw cyfnod a dreulir neu y mae'n ofynnol i'w dreulio yn unol â Rheoliadau a wnaed yng Nghymru a Lloegr o dan:

- (a) adran 19 o Ddeddf 1998;
- (b) adran 135A o Ddeddf 2002; neu
- (c) adran 17 o Ddeddf 2014

ystyr y 'GDG' yw'r Gwasanaeth Diogelu a Gwahardd;

ystyr 'aelod lleyg' yw aelod o'r Pwyllgor nad yw:

- (a) yn berson cofrestredig;
- (b) yn cael ei gyflogi, neu ei gyfarwyddo i ddarparu gwasanaethau perthnasol o fewn y cyfnod o bum mlynedd sy'n dod i ben ar ddyddiad penodi'r person hwnnw i'r Pwyllgor,
- (c) wedi ei wahardd rhag ymgymryd â gweithgarwch a reoleiddir yn ymwneud â phlant (o fewn ystyr adran 3(2) o *Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006(1)*);
- (d) yn destun gorchymyn disgyblu a wnaed o dan y Ddeddf ac yn rhinwedd y gorchymyn hwnnw mae'r person yn anghymwys i gofrestru; neu
- (e) wedi ei ddiarddel rhag gweithio mewn swydd sy'n cyfateb i gategori cofrestru.

ystyr 'aelod o'r cyhoedd' yw person nad yw'n gyflogwr o fewn ystyr y Rheolau hyn, neu berson nad yw wedi'i gofrestru neu nad yw'n gymwys i'w gofrestru;

ystyr 'mis' yw mis calendr;

ystyr 'swyddog CGA' yw cyflogai i CGA, neu unrhyw berson a awdurdodir yn briodol i weithredu ar ran y Prif Weithredwr;

ystyr 'y Gorchymyn' yw *Gorchymyn Cyngor y Gweithlu Addysg (Cofrestru Gweithwyr Ieuencid, Gweithwyr Cymorth Ieuencid ac Ymarferwyr Dysgu Seiliedig ar Waith) 2016*;

ystyr 'gwybodaeth berthnasol arall' yw unrhyw wybodaeth arall a geisir gan CGA a/neu a roddir i CGA y gellid ei hystyried yn berthnasol i asesiad addasrwydd;

ystyr 'cofrestru dros dro' yw'r statws cofrestru y mae person yn gymwys amdano, os yw'r person yn bodloni un neu fwy o'r amodau canlynol, am y tro, sef:

- (a) bod y person yn athro ysgol cymwys sydd heb gwblhau cyfnod sefydlu;
- (b) bod y person wedi ei gofrestru gan CGA yng nghategori cofrestru athro ysgol yn unol â *Rheoliadau Cyngorau Addysgu Cyffredinol (Cofrestru Athrawon Dros Dro o Wladwriaethau Ewropeaidd Perthnasol) (Cymru a Lloegr) 2009*

ystyr 'atgyfeiriad addasrwydd' yw gwybodaeth a dderbynnir gan CGA, pan wneir cais, a allai effeithio ar addasrwydd ymgeisydd i fod yn berson cofrestredig. Gallai hyn gynnwys:

- (a) gwybodaeth a ddarperir gan yr ymgeisydd mewn datganiad; a/neu
- (b) methiant gan yr ymgeisydd i ddatgan rhywbeth: a/neu
- (c) wybodaeth berthnasol arall o unrhyw ffynhonnell arall;

ystyr 'y Gofrestr' yw'r Gofrestr Ymarferwyr Addysg y mae'n ofynnol i CGA ei sefydlu a'i chynnal yn unol ag adran 9(1) o'r Ddeddf, fel y nodir yn *Rheoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Prif Swyddogaethau) (Cymru) 2015*, fel y'i diwygiwyd,

ac ystyr 'cofrestru' yw cofrestru llawn neu dros dro ar y Gofrestr mewn un categori cofrestru neu fwy. Mae cofrestru 'dros dro' yn berthnasol i'r categori Athro ysgol yn unig;

ystyr 'person cofrestredig' yw:

- (a) person sydd wedi'i gofrestru am y tro o dan Adran 9 o'r Ddeddf, gan gynnwys y rheiny sydd wedi'u cofrestru dros dro;
- (b) person a oedd wedi'i gofrestru ar adeg unrhyw ymddygiad neu drosedd honedig (boed o dan adran 9 o'r Ddeddf neu o dan adran 3 o Ddeddf 1998); neu
- (c) berson sydd wedi gwneud cais i gael ei gofrestru;

ystyr 'aelod cofrestredig' yw aelod o'r Pwyllgor sydd:

- (a) yn berson cofrestredig o'r un categori cofrestru â'r person cofrestredig, sef testun y gweithrediadau; ac sydd
- (b) wedi ei gyflogi, neu ei gyfarwyddo mewn modd arall heblaw drwy gontract cyflogaeth, yn un o'r swyddi a ddisgrifir yn y categorïau cofrestru ar ddyddiad penodi'r person cofrestredig hwnnw i'r Pwyllgor,

a bydd aelod cofrestredig sy'n rhoi'r gorau i fod yn berson cofrestredig neu'n rhoi'r gorau i gael ei gyflogi neu ei gyfarwyddo yn un o'r swyddi a ddisgrifir yn y categorïau cofrestru yn rhoi'r gorau i fod yn aelod cofrestredig;

ystyr 'cyflogwr perthnasol' yw person sy'n cyflogi neu'n cyfarwyddo mewn modd arall bersonau cofrestredig i ddarparu gwasanaethau perthnasol yng Nghymru;

a rhaid dehongli 'cyflogwr presennol' ac 'wedi'i gyflogi' yn unol â hynny;

ystyr 'addas' yw bod CGA yn fodlon bod yr ymgeisydd yn bodloni'r safonau a ddisgwylir gan berson cofrestredig yn y categori neu gategorïau cofrestru perthnasol;

ystyr 'Pwyllgor Addasrwydd' yw Pwyllgor a gynullir i benderfynu a yw ymgeisydd yn addas i fod yn berson cofrestredig yn y categori neu gategorïau cofrestru perthnasol ai peidio;

ystyr 'wythnos' yw wythnos galendr.

(2) Yn y Rheolau hyn, oni bai y nodir y bwriad i'r gwrthwyneb:

- (a) mae geiriau yn yr unigol yn cynnwys y lluosog, ac mae geiriau yn y lluosog yn cynnwys yr unigol ac mae enwau gwrywaidd yn cyfeirio at wrywod a benywod;
- (b) mae is-baragraffau a pharagraffau wedi'u rhifo'n cyfeirio at y Rheol lle maent yn ymddangos;
- (c) mae rheolau wedi'u rhifo'n cyfeirio at reolau'r Rheolau hyn.

Cyhoeddi'r Rheolau

3- (1) Bydd y Rheolau hyn:

- (a) ar gael yn rhad ac am ddim ar gais i unrhyw berson cofrestredig neu berson sydd wedi gwneud cais i gofrestru;
- (b) yn cael eu cyhoeddi ar wefan CGA;
- (c) yn cael eu hadolygu'n barhaus a'u diweddarau fel sy'n briodol.

Ymgeisio i gofrestru ar y Gofrestr

4-(1) Rhaid i gais i gofrestru ar y Gofrestr gael ei wneud ar y ffurf ac yn y modd a benodir gan CGA a rhaid ei atodi gan y ffi gofrestru gywir.

Rhaid i'r cais:

- (a) gael ei wneud yn ysgrifenedig; a
- (b) chael ei wneud ar ffurflen gais a ddarperir gan CGA; a
- (c) chael ei gyflwyno gyda'r datganiad wedi'i gwblhau'n llawn a chan ddarparu dogfennau ategol os oes angen; a
- (d) chael ei lofnodi gan yr ymgeisydd neu, os caiff ei gyflwyno ar-lein, â llofnod electronig;
- (e) cynnwys cwblhau'r gofynion Dychwelyd i Ymarfer os ydynt yn berthnasol.

(2) Rhaid i gais i gofrestru gynnwys y manylion canlynol:

- (a) y categori neu'r categorïau cofrestru y gwneir cais amdano / amdanynt;
- (b) rhif cyfeirnod athro'r ymgeisydd (DfES) os oes ganddo un;
- (c) enw llawn yr ymgeisydd ac unrhyw enw(au) y'i gelwid gynt;
- (d) dyddiad geni'r ymgeisydd;
- (e) rhyw'r ymgeisydd;
- (f) cyfeiriad cartref neu gyfeiriad cyswllt a rhif ffôn yr ymgeisydd;
- (g) rhif Yswiriant Gwladol yr ymgeisydd;
- (h) datganiad yn ffurflen CGA *Cais i Gofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg (CGA)*, neu mewn man arall, i gynnwys:
 - (i) manylion unrhyw rybuddiadau neu gollfarnau, nad ydynt wedi'u "gwarchod" fel y'i diffinnir gan *Orchymyn Gorchymyn Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974 (Eithriadau) (Diwygiad 1975) (Cymru a Lloegr) 2013* a gyhoeddwyd gan lys barn yn y DU neu unrhyw wlad arall;
 - (ii) manylion unrhyw ymchwiliad neu ymchwiliadau sydd yn yr arfaeth a allai arwain at gollfarn neu rybuddiad yn y DU neu unrhyw wlad arall;

- (iii) manylion unrhyw gamau disgyblu sydd wedi'u cymryd (neu sydd yn yr arfaeth) yn erbyn yr ymgeisydd gan gyflogwr neu unrhyw gorff rheoleiddio proffesiynol arall neu awdurdod tebyg;
 - (i) Tystiolaeth o gydymffurfiaeth â'r cynllun Dychwelyd i Ymarfer lle'n briodol drwy gwblhau ffurflen 'cyfnod o ddiweddarau'.
 - (j) Unrhyw wybodaeth arall o'r fath a allai fod yn ofynnol gan CGA.
- (3) Gallai CGA ofyn i unrhyw gais i gofrestru gael ei atodi gan y fath ddogfennau fel yr ystyrir sy'n briodol.
- (4) Dylid hysbysu CGA yn ysgrifenedig o unrhyw newid yn y manylion a nodir yn y cais i gofrestru.
- (5) Ni ellir cymryd bod modd trosglwyddo cofrestriad gyda Chyngor Addysgu Cyffredinol arall i Gymru'n awtomataidd. Rhaid gwneud cais newydd i gofrestru.

Hawl i gofrestru

- 5- (1) Bydd gan berson hawl i gofrestru ar y Gofrestr ar yr amod ei fod:
- (a) yn bodloni'r gofynion cymhwys ar gyfer y categori neu'r categorïau cofrestru (mae'n rhaid i athrawon ysgol feddu ar Statws Athro Cymwys (SAC)); ac
 - (b) wedi cwblhau'n foddhaol unrhyw gyfnod Sefydlu sy'n ofynnol gan adran 17 o'r Ddeddf (athrawon ysgol a enillodd Statws Athro Cymwys ar ôl 1^{af} Ebrill 2003). Os yw'n ofynnol i ymgeisydd gwblhau'r cyfnod Sefydlu statudol o dan y Ddeddf ond nad yw wedi gwneud hynny eto, mae'n gymwys i wneud cais am statws cofrestru dros dro yn unig; a
 - (c) heb gael ei wahardd neu ei atal rhag ymarfer gan CGA yn y categori neu gategorïau cofrestru y gwneir cais i gofrestru amdano/amdanynt, ac nid wedi'i wahardd neu ei atal gan unrhyw un o'r cyrff cyfatebol yn y Deyrnas Unedig neu Iwerddon; a
 - (d) heb gael ei wahardd gan yr Ysgrifennydd Gwladol; ac
 - (e) heb gael ei wahardd rhag y â gweithgarwch a reoleiddir yn ymwneud â phlant (o fewn ystyr adran 3(2) o *Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwylf 2006*); a
 - (f) heb ei ddiarddel rhag gweithio mewn swydd sy'n cyfateb i'r categori cofrestru y gwneir cais i gofrestru amdano mewn rhan arall o'r Deyrnas Unedig; ac
 - (g) wedi cyflwyno tystiolaeth foddhaol o gydymffurfiaeth â Chynllun Dychwelyd i Ymarfer CGA, yn unol â Rheol 4(2)(i), lle bo'n briodol; ac

- (h) y tybir ei fod yn addas i gael ei gofrestru gan CGA yn y categori neu gategoriâu cofrestru y gwneir cais i gofrestru amdano/amdanynt.
- (2) Pan fo CGA yn penderfynu gwrthod cais i gofrestru oherwydd na fodlonir un o baragraff (1)(a) i (1)(h), bydd yn ysgrifennu at yr ymgeisydd gan roi rhesymau dros wrthod.

Addasrwydd i gofrestru

- 6-(1) Yn unol â Rheol 4(1) a Rheol 5(1)(h), bydd CGA yn asesu addasrwydd ymgeisydd i gofrestru lle mae wedi gwneud cais i gael ei gofrestru, a lle derbynnir atgyfeiriad addasrwydd wedi hynny.
 - (2) Bydd CGA bob amser yn asesu a ddylid gwneud atgyfeiriad i'r GDG ai peidio, ar sail y dystiolaeth a'r wybodaeth a dderbynnir ganddo, ac a oes awgrym o niwed, neu berygl niwed i blant neu oedolion agored i niwed.
 - (3) Pan ddylid cyflwyno atgyfeiriad addasrwydd i gorff arall, caiff ei gyfeirio at y corff arall fel sy'n briodol, a bydd y swyddog a awdurdodir yn briodol yn hysbysu'r holl bartïon perthnasol.
 - (4) Gallai'r swyddog a awdurdodir yn briodol gyflwyno atgyfeiriad addasrwydd yn uniongyrchol i asesiad Cam 3 (cyfarfod Pwyllgor Addasrwydd) o dan Reol 9 os bydd o'r farn bod hyn yn briodol o ystyried yr wybodaeth a dderbyniwyd am yr ymgeisydd.

Asesiad Cam 1

- 7- (1) Pan fo'r ymgeisydd o dan Reol 4(2)(h) neu mewn man arall yn cadarnhau bodolaeth mân drosedd neu droseddau, ac mae'r swyddog a awdurdodir yn briodol o'r farn bod y fath droseddau'n dod o dan restr o droseddau a gymeradwywyd gan y Cyngor fel troseddau y gallai'r swyddog a awdurdodir yn briodol ymdrin â hwy, gallai wneud argymhelliad i'r Dirprwy Brif Weithredwr i ganiatáu'r cais i gofrestru ar y sail bod yr ymgeisydd yn addas i fod yn berson cofrestredig yn y categori neu gategoriâu cofrestru perthnasol.

Asesiad Cam 2

- 8-(1) Pan fo:
 - (a) ymgeisydd yn gwneud datganiad o dan Reol 4(2)(h), neu mewn man arall; a phan nad yw Rheol 7(1) yn berthnasol; a/neu
 - (b) mae ymgeisydd yn methu â datgan gwybodaeth o dan Reol 4(2)(h), neu mewn man arall; a/neu
 - (c) gwybodaeth berthnasol arall yn cael ei derbyn am ymgeisydd, a/neu ei gais ef neu ei chais hi i gofrestru gyda CGA,

bydd y swyddog gallai wneud ymholiadau pellach gyda chyrff perthnasol eraill i wirio'r datganiad a/neu'r wybodaeth a dderbyniwyd, fel y bo'n briodol.

- (2) Os, wedi ystyried unrhyw dystiolaeth a dderbyniwyd gan gorff perthnasol, yw'r swyddog a awdurdodir yn briodol o'r farn na fydd y materion yn effeithio ar addasrwydd yr ymgeisydd, gallaf ef neu hi wneud argymhelliad i'r Dirprwy Brif Weithredwr i ganiatáu'r cais i gofrestru.
- (3) Os nad yw paragraff 2 yn berthnasol, bydd y swyddog a awdurdodir yn briodol yn gwahodd yr ymgeisydd i ddarparu sylwadau ysgrifenedig i ategu ei gais i fod yn berson cofrestredig.
- (4) Ar ôl ystyried unrhyw sylwadau a wnaed gan ymgeisydd o dan baragraff (3), ac unrhyw wybodaeth a dderbyniwyd gan gorff perthnasol eraill o dan baragraff (1), bydd y swyddog a awdurdodir yn briodol yn gwneud argymhelliad i'r Dirprwy Brif Weithredwr naill ai:
 - (a) i ganiatáu'r cais i gofrestru ar y sail bod yr ymgeisydd yn addas i fod yn berson cofrestredig yn y categori neu gategorïau cofrestru perthnasol; neu
 - (b) i wahodd yr ymgeisydd i ddod i gyfarfod o'r Pwyllgor Addasrwydd (asesiad Cam 3).

Asesiad Cam 3 (cyfarfod o'r Pwyllgor Addasrwydd)

Hysbysiad

- 9- (1) Pan fo atgyfeiriad addasrwydd wedi'i gyflwyno i asesiad Cam 3 (cyfarfod o'r Pwyllgor Addasrwydd), bydd y swyddog a awdurdodir yn briodol yn anfon llythyr at yr ymgeisydd yn unol â pharagraff (2) drwy ddsbarthiad arbennig i'w gyfeiriad cartref diweddaraf sy'n hysbys i CGA, gan roi o leiaf chwe wythnos o rybudd o gyfarfod y Pwyllgor Addasrwydd iddo.
- (2) Bydd y llythyr:
 - (a) yn hysbysu'r ymgeisydd o amser a dyddiad y cyfarfod, ei leoliad ac enwau aelodau'r Pwyllgor Addasrwydd;
 - (b) yn holi a yw'r ymgeisydd yn bwriadu ymddangos yn bersonol a/neu gael ei gynrychioli yn y cyfarfod;
 - (c) yn holi a yw'r ymgeisydd yn credu y gallai gwrthdaro buddiannau godi mewn perthynas ag unrhyw aelod o'r Pwyllgor, ac os credir hynny, beth yw'r rheswm;
 - (d) yn gofyn i'r ymgeisydd ymateb i is-baragraffau (2)(b) a (2)(c) cyn pen pythefnos ar ôl y diwrnod yr anfonir y llythyr;

- (e) yn nodi manylion yr atgyfeiriad addasrwydd i'w ystyried gan y Pwyllgor, gan amgáu'r dystiolaeth asesu;
 - (f) yn gwahodd yr ymgeisydd i wneud unrhyw sylwadau ysgrifenedig ychwanegol ynghylch y manylion y cyfeirir atynt yn is-baragraff (2)(e) a'i addasrwydd cyn pen tair wythnos ar ôl y diwrnod yr anfonir y llythyr. Gallai'r sylwadau hyn gynnwys datganiadau tystion;
 - (g) yn holi, ar yr adeg mae'n ymateb, a yw'r ymgeisydd wedi'i gyflogi ai peidio ar y pryd fel ymarferydd addysg a reoleiddir gan CGA ac, os ydyw, enw a chyfeiriad y cyflogwr presennol, neu'r asiantaeth gyflenwi;
 - (h) yn atodi copi o'r Rheolau hyn.
- (3) Bydd y swyddog a awdurdodir yn briodol yn anfon copi o'r llythyr, fel y darperir ym mharagraff (2), at gyflogwr neu asiant presennol yr ymgeisydd lle bydd hyn yn hysbys.

Presenoldeb a chynrychiolaeth

- 10-(1) Anogir yr ymgeisydd y mae ei addasrwydd yn cael ei asesu i ymddangos yn bersonol a/neu gael ei gynrychioli mewn cyfarfod gan unrhyw berson o'i ddewis, gan gynnwys cynrychiolydd cyfreithiol.
- (2) Os nad yw'r ymgeisydd yn dod i gyfarfod ac nid yw'n cael ei gynrychioli mewn cyfarfod, bydd y Cadeirydd:
- (a) yn gofyn am dystiolaeth gan y swyddog a awdurdodir yn briodol bod llythyr wedi'i anfon at yr ymgeisydd yn unol â Rheol 9; ac
 - (b) yn holi'r swyddog a awdurdodir yn briodol a oes unrhyw resymau dros absenoldeb yr ymgeisydd wedi cael eu cyfleu i un o swyddogion CGA.
- (3) Os nad yw'r Pwyllgor yn fodlon y cydymffurfiwyd â Rheol 9, bydd y Pwyllgor yn torri yng nghanol y cyfarfod.
- (4) Os yw'r Pwyllgor yn fodlon y cydymffurfiwyd â Rheol 9, ac nid yw'r ymgeisydd yn bresennol, ar ôl ystyried unrhyw sylwadau ysgrifenedig neu lafar a wnaed gan yr ymgeisydd neu ar ei ran, a chan ystyried unrhyw gyngor gan yr ymgynghorydd cyfreithiol, gall y Pwyllgor fynd ymlaen yn absenoldeb yr ymgeisydd neu dorri yng nghanol y cyfarfod.

Trefn y cyfarfod

- 11-(1) Caiff y drefn i'w dilyn yn y cyfarfod ei phenderfynu gan Gadeirydd y Pwyllgor yn unol â Rheol 11(2) i (14).
- (2) Cynhelir cyfarfodydd o'r Pwyllgor Addasrwydd yn breifat.

- (3) Bydd swyddogion CGA yn sicrhau y caiff yr holl wybodaeth a dderbyniwyd, gan gynnwys unrhyw sylwadau a thystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynwyd gan yr ymgeisydd, ei hanfon at yr holl bartïon cyn y cyfarfod, ac eithrio lle bydd yr ymgeisydd yn darparu sylwadau a thystiolaeth i CGA y tu allan i'r amserlenni a nodir yn Rheol 9(2)(d) a 9(2)(f). Os na chedwir at y fath amserlenni, yna dim ond yn ôl disgrisiwn y Pwyllgor y gellir derbyn sylwadau a thystiolaeth y mae'r ymgeisydd yn bwriadu dibynnu arnynt.
- (4) Bydd y Cadeirydd yn gofyn i aelodau'r Pwyllgor sy'n bresennol gyflwyno eu hunain, yn cadarnhau enw'r ymgeisydd y mae ei addasrwydd yn cael ei asesu a'i gynrychiolydd, ac yn gofyn am gadarnhad nad oes unrhyw wrthdaro buddiannau rhwng y partïon.
- (5) Bydd y swyddog a awdurdodir yn briodol, fel y'i cyfarwyddir gan y Cadeirydd, yn darllen manylion yr atgyfeiriad addasrwydd sy'n bwrw amheuaeth dros addasrwydd yr ymgeisydd i fod yn berson cofrestredig. Bydd y Cadeirydd yn holi a gyfaddefir ffeithiau'r atgyfeiriad ai peidio.
- (6) Bydd y swyddog a awdurdodir yn briodol yn tynnu sylw'r Pwyllgor at dystiolaeth berthnasol yn y papurau.
- (7) Gallai'r ymgeisydd, neu ei gynrychiolydd, gyflwyno tystiolaeth berthnasol mewn perthynas â'r ffeithiau, lliniariad, ac addasrwydd yr ymgeisydd i fod yn berson cofrestredig.
- (8) Os yw'r ymgeisydd yn dewis rhoi tystiolaeth, gallai'r Pwyllgor holi'r ymgeisydd.
- (9) Gallai Pwyllgor, mewn amgylchiadau eithriadol a chyn iddo ddod i'w benderfyniad terfynol, gyflwyno atgyfeiriad addasrwydd i Bwyllgor Addasrwydd sydd wedi'i gyfansoddi'n wahanol pan ymddengys fod tor-reolau wedi bod mewn perthynas â Chyfansoddiad y Pwyllgor neu gyfiawnder naturiol wedi'i dorri (Atodiad).
- (10) Pan fo Pwyllgor yn cyflwyno atgyfeiriad addasrwydd i Bwyllgor arall, bydd y swyddog a awdurdodir yn briodol yn hysbysu'r partïon fel sy'n briodol.
- (11) Ar unrhyw adeg, gallai Pwyllgor Addasrwydd:
 - (a) ofyn i ymholiadau pellach gael eu gwneud gan un o swyddogion CGA;
 - (b) gofyn am dystiolaeth / dogfennau pellach gan unrhyw barti perthnasol, a chaiff copïau o unrhyw dystiolaeth / dogfennau sy'n dod i law eu hanfon at yr ymgeisydd.
- (12) Bydd un o swyddogion CGA sy'n gwneud ymholiadau pellach o dan baragraff (11) yn sgil cais gan Bwyllgor Addasrwydd yn cyflwyno canlyniadau unrhyw ymchwiliadau o'r fath yn ysgrifenedig i'r Pwyllgor.
- (13) Gallai Pwyllgor Addasrwydd dorri yng nghanol asesiad o addasrwydd ymgeisydd ar unrhyw adeg.

- (14) Gallai ymgeisydd wneud cais ysgrifenedig i'r cyfarfod gael ei gynnal (yn gyfan gwbl neu'n rhannol) yn Gymraeg.

Penderfyniad

12- (1) Ar sail y dystiolaeth gerbron, bydd y Pwyllgor Addasrwydd yn penderfynu:

- (a) caniatáu'r cais i gofrestru ar y sail bod y Pwyllgor yn fodlon bod yr ymgeisydd yn addas i fod yn berson cofrestredig yn y categori neu gategorïau cofrestru perthnasol; neu
 - (b) wrthod y cais i gofrestru ar y sail nad yw'r Pwyllgor yn fodlon bod yr ymgeisydd yn addas i fod yn berson cofrestredig yn y categori neu gategorïau cofrestru perthnasol; neu
 - (c) dorri yng nghanol asesiad er mwyn i ymholiadau pellach gael eu gwneud o dan Reol 11(12) neu i gael cyngor cyfreithiol cyn dod i benderfyniad terfynol o dan y Rheol hon.
- (2) Caiff yr ymgeisydd ei hysbysu'n ysgrifenedig o benderfyniad y Pwyllgor Addasrwydd cyn pen pythefnos ar ôl iddo ddod i'w benderfyniad.
- (3) O dan is-baragraff (1)(a), gwneir trefniadau i alluogi'r ymgeisydd i gofrestru.
- (4) O dan is-baragraff (1)(b) a Rheol 5(2), bydd penderfyniad ysgrifenedig y Pwyllgor yn nodi manylion sail y penderfyniad, ac yn hysbysu'r ymgeisydd o'i hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad at yr Uchel Lys cyn pen 28 diwrnod ar ôl y dyddiad pan anfonir y penderfyniad ysgrifenedig ato.
- (5) O dan is-baragraff (1)(b), ni all yr ymgeisydd wneud unrhyw gais arall i gofrestru am gyfnod o 12 mis, gan ddechrau ar y dyddiad y daeth y Pwyllgor i'w benderfyniad.
- (6) Pan dorrir yng nghanol asesiad o dan is-baragraff (1)(c), gellir ei gyfeirio at yr un Pwyllgor neu Bwyllgor â chyfansoddiad newydd.

Baich a Safon y prawf

13- (1) Yr ymgeisydd fydd yn ysgwyddo baich y prawf ynghylch ei addasrwydd i fod yn berson cofrestredig, o dan Reolau 6 i 12, a Rheol 15.

- (2) Safon y prawf yw'r safon sifil, sef 'yn ôl pwysau tebygolrwydd'.

Atgyfeiriadau at y GDG

14-(1) Gallai un o swyddogion CGA, o'i wirfodd neu dan gyfarwyddyd Pwyllgor Addasrwydd, ac ar unrhyw adeg yn y broses asesu addasrwydd yn unol â Rheol 6(2), gyflwyno atgyfeiriad

addasrwydd i'r GDG os yw'n awgrymu niwed, neu berygl niwed, i blant neu oedolion agored i niwed.

- (2) Bydd un o swyddogion CGA, o ganlyniad i gam gweithredu a gymerwyd o dan baragraff (1), yn hysbysu'r ymgeisydd yn ysgrifenedig o'r atgyfeiriad.

Addasrwydd i gofrestru ar ôl i gais gael ei wrthod

- 15-(1) Pan gaiff cais i gofrestru ei wrthod ar y sail nad oedd yr ymgeisydd yn addas i fod yn berson cofrestredig yn y categori neu gategoriâu cofrestru perthnasol dan Reol 12(1)b, yn ddarostyngedig i Reol 12(5), gallai wneud cais i CGA am benderfyniad y gallai fod yn addas.
 - (2) Os caiff ymgeisydd ei wrthod rhag cofrestru o fewn un neu fwy o gategoriâu dan Reol 12(1)(b), bydd ef neu hi yn gymwys i wneud cais parthed unrhyw categori neu gategoriâu eraill, hyd yn oed os na fydd cyfnod o 12 mis wedi dod i ben.
 - (3) Rhaid gwneud cais o dan baragraff (1) yn ysgrifenedig a rhaid iddo nodi ar ba sail y mae'r ymgeisydd yn gofyn am y penderfyniad, a rhaid atodi pob dogfen y dibynnir arni i ategu'r cais. Rhaid i hyn gynnwys tystiolaeth newydd i ddangos newidiadau arwyddocaol i addasrwydd ymgeisydd.
 - (4) Pan fydd person yn gwneud cais i CGA am benderfyniad ei fod yn addas i fod yn berson cofrestredig ar ôl i gais gael ei wrthod, bydd Pwyllgor Addasrwydd yn cynnal cyfarfod yn unol â'r Rheolau hyn.
 - (5) Bydd y swyddog a awdurdodir yn briodol yn anfon llythyr at yr ymgeisydd drwy ddosbarthiad arbennig i gyfeiriad diweddaraf yr ymgeisydd sy'n hysbys i CGA, a fydd:
 - (a) yn hysbysu'r ymgeisydd o amser a dyddiad y cyfarfod, ei leoliad ac enwau aelodau'r Pwyllgor Addasrwydd; ac
 - (b) yn atodi copi o'r dystiolaeth a roddwyd, a phenderfyniad y Pwyllgor yn y cyfarfod pan wnaed y penderfyniad y dylid gwrthod cofrestru'r ymgeisydd yn y categori neu gategoriâu cofrestru perthnasol ar y sail nad oedd yn fodlon ynghylch ei addasrwydd i fod yn berson cofrestredig.
 - (6) Wrth ystyried y cais, bydd y Rheolau hyn yn gymwys fel sy'n briodol o ystyried rôl y Pwyllgor.
 - (7) Bydd y Pwyllgor yn penderfynu a yw'n fodlon ai peidio bod y person yn addas i'w aildderbyn i'r Gofrestr.
 - (8) Bydd y Pwyllgor, wrth wneud ei benderfyniad yn ystyried:
 - (a) y rhesymau pam y gwrthodwyd y cais gwreiddiol;
 - (b) y manylion sy'n ategu'r cais;

- (c) a yw'r person wedi bod o gymeriad glân ers gwrthod y cais gwreiddiol; ac
 - (d) a yw'r ymgeisydd wedi dangos ei barodrwydd a'r gallu i lynu yn y dyfodol wrth y safonau ymddygiad a ddisgwylir gan berson cofrestredig a/neu ei fod yn gallu dangos lefel gymhwysedd nad yw'n disgyn yn is na'r hyn a ddisgwylir gan berson cofrestredig.
- (9) Caiff cais o dan baragraff (1) ei benderfynu gan Bwyllgor Addasrwydd arall na fydd yn cynnwys fel aelod ohono unrhyw berson a oedd yn aelod o'r Pwyllgor a wrthododd y cais gwreiddiol i gofrestru.
- (10) Os yw'r Pwyllgor yn fodlon bod yr ymgeisydd yn addas i fod yn berson cofrestredig yn y categori neu gategoriâu cofrestru perthnasol, gwneir trefniadau i alluogi'r ymgeisydd i gofrestru.
- (11) Os nad yw'r Pwyllgor yn fodlon bod yr ymgeisydd yn addas i fod yn berson cofrestredig yn y categori neu gategoriâu cofrestru perthnasol a chaiff y cais ei wrthod, ni ellir gwneud cais pellach i gofrestru cyn pen 12 mis calendr ar ôl dyddiad penderfyniad y Pwyllgor Addasrwydd o dan y Rheol hon, neu o fewn cyfnod hirach fel y gallai'r Pwyllgor benderfynu.

Cynnwys y Gofrestr

- 16-(1) Cofnoder yn erbyn enw person a gofrestrir ar y Gofrestr y materion a restrir yn Atodlen 2 i *Reoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Prif Swyddogaethau) (Cymru) 2015*, fel y'i diwygiwyd.
- (2) Gallai CGA wneud darpariaeth i gofnodi materion ychwanegol yn y Gofrestr yn ôl yr angen, ac y mae'n eu hystyried yn berthnasol i gofrestriad person.
- (3) Pan fo gorchymyn disgyblu wedi dod i ben, gallai CGA wneud darpariaeth i'r gorchymyn sydd wedi dod i ben gael ei gofnodi ar y Gofrestr gan nodi'n glir bod y gorchymyn wedi dod i ben. Bydd y ddarpariaeth hon am gyfnod o 1 flwyddyn ar ôl iddo ddod i ben, a bydd yn hygyrch i ddarpar gyflogwyr ac asiantau a chyflogwyr ac asiantau presennol yn unig.

Diwygio cofnodion ar y Gofrestr

- 17- (1) Rhaid i berson cofrestredig hysbysu CGA o fewn cyfnod o fis ar ôl unrhyw newid i unrhyw fanylion a gofnodir yn y Gofrestr mewn perthynas ag ef.
- (2) Bydd CGA, i'r graddau y bo'n angenrheidiol, yn diwygio'r Gofrestr:
- (a) i weithredu'r rhybudd a roddwyd o dan baragraff (1);
 - (b) i weithredu unrhyw benderfyniad neu orchymyn disgyblu mae CGA yn ei wneud;

- (c) i weithredu unrhyw wybodaeth sydd wedi dod i sylw CGA ac sydd, yn ei farn ef, yn galw am ddiwygiad er mwyn cadw cywirdeb y Gofrestr.
- (3) Gallai CGA ofyn am brawf dogfennol o ddiwygiadau neu ychwanegiadau at y Gofrestr, gan gynnwys cymwysterau, newid enwau neu brofedigaethau.

Adfer cofnodion ar y Gofrestr

- 18- (1) Lle bydd person cofrestredig, wrth edrych ar y Gofrestr, yn canfod bod cofnod mewn perthynas ag ef wedi'i hepgor, rhaid iddo roi gwybod i CGA cyn gynted ag y bo'n ymarferol gydag unrhyw dystiolaeth ategol o'r fath ag y gall y person cofrestredig gael gafael arni.
- (2) Bydd CGA hefyd yn adfer, os yw'n fodlon ar y dystiolaeth, unrhyw gofnod a gaiff ei adrodd i CGA o dan baragraff (1), neu a gaiff ei adrodd i CGA drwy unrhyw ddull arall.
- (3) Caiff person ar y Gofrestr sy'n destun Gorchymyn Atal (gyda neu heb amodau) gan CGA, ei adfer i'r Gofrestr ar ddiwedd y cyfnod atal, yn amodol ar y canlynol:
- (a) y cyflwynir cais newydd i gofrestru yn unol â Rheol 4;
 - (b) darpariaethau Rheolau 5 a 19(3);
 - (c) cydymffurfiaeth ag unrhyw amodau a osodwyd gan Bwyllgor Addasrwydd i Ymarfer.
- (4) Dim ond yn y categori neu gategoriâu cofrestru y gosodwyd y Gorchymyn Gwahardd ynddo/ynddynt yn unol â Rheol 36 o *Weithdrefnau a Rheolau Disgyblu 2017* CGA y caiff person sy'n destun Gorchymyn Gwahardd a osodwyd gan CGA wneud cais i fod yn gymwys i'w adfer ar y Gofrestr.

Ffioedd cofrestru

- 19- (1) Gallai CGA godi ffioedd blynyddol, gyda chymeradwyaeth Llywodraeth Cymru ("ffi gofrestru") am:
- (a) gofrestru person ar y Gofrestr;
 - (b) cadw cofnodion ar y Gofrestr bob blwyddyn; ac
 - (c) adfer cofnodion ar y Gofrestr.
- (2) Bydd CGA yn cyhoeddi'r ffi gofrestru, pan fydd yn cytuno ar swm newydd o dan baragraff (1), ar wefan CGA ac ar ffurf llythyr a fydd ar gael i:
- (a) bersonau cofrestredig;

- (b) cyflogwyr ac asiantau;
 - (c) unrhyw berson sy'n gofyn am yr wybodaeth.
- (3) Yn ddarostyngedig i baragraff (4), gallai CGA wrthod cais i gofrestru nes bod y ffi gofrestru wedi'i thalu yn unol ag is-baragraff (1)(a).
- (4) Gallai CGA wneud darpariaeth ar gyfer eithriadau lle na chodir ffioedd.
- (5) Bydd y ffi gofrestru, yn unol ag is-baragraff(1) (b) yn daladwy:
- (a) i CGA ar 1af Ebrill bob blwyddyn neu cyn y dyddiad hwnnw; ac
 - (b) yn unol ag adran 12 o'r Ddeddf; neu
 - (c) drwy unrhyw ddull arall fel y cyfarwyddir gan CGA.
- (6) At ddibenion y ffi gofrestru, mae "blwyddyn" yn dechrau ar 1^{af} Ebrill ac yn dod i ben ar 31^{ain} Mawrth y flwyddyn ddilynol.
- (7) Pan fo person cofrestredig yn gyfrifol am dalu ei ffi gofrestru flynyddol ei hun, ond yn methu â thalu'r ffi gofrestru er mwyn cael ei gadw ar y Gofrestr o dan is-baragraff (1)(b) ar gyfer y flwyddyn pan fydd y ffi gofrestru'n ddyledus, bydd CGA:
- (a) yn anfon hysbysiad at y person cofrestredig yn gofyn i'r ffi gofrestru gael ei thalu; ac
 - (b) yn atgoffa'r person cofrestredig y bydd methu â thalu'r ffi gofrestru o fewn cyfnod amser penodol yn arwain at ddileu cofnod y person cofrestredig hwnnw oddi ar y Gofrestr, o dan Reol 20(1)(a); ac
 - (c) yn hysbysu'r person cofrestredig y gallai ffi weinyddu fod yn daladwy yn sgil costau talu eu ffi yn hwyr.

Bydd CGA yn defnyddio'r cyfeiriad cartref a / neu'r cyfeiriad e-bost a gedwir ar y Gofrestr yn erbyn enw person at y diben hwn.

Dileu cofnodion oddi ar y Gofrestr

- 20- (1) Bydd CGA yn dileu cofnodion o gategori neu gategoriâu perthnasol y Gofrestr pan fo person cofrestredig:
- (a) wedi methu â thalu'r ffi gofrestru o dan Reol 19(1)(b) ar ôl i CGA roi hysbysiad priodol o dan Reol 19(7);

- (b) wedi methu â chwblhau'n foddhaol unrhyw gyfnod sefydlu sy'n ofynnol yn rhinwedd adran 17 o'r Ddeddf;
- (c) wedi ei wahardd neu ei atal gan CGA rhag ymarfer o un neu ragor o gategoriâu cofrestru, neu wedi'i wahardd neu ei atal gan unrhyw un o'r cyrff sy'n cyfateb i CGA yn y Deyrnas Unedig neu Iwerddon;
- (d) wedi ei wahardd gan yr Ysgrifennydd Gwladol;
- (e) wedi ei wahardd rhag ymgymryd â gweithgarwch a reoleiddir yn ymwneud â phlant (o fewn ystyr adran 3(2) o Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006);
- (f) wedi ei ddiarddel rhag gweithio mewn swydd sy'n cyfateb i'r categori cofrestru y ceisir cofrestru amdano mewn rhan arall o'r Deyrnas Unedig; a
- (g) yn ddarostyngedig i baragraff (2), pan fo'n gwneud cais ysgrifenedig i CGA ei ddadgofrestru ar y sail:
 - (i) ei fod wedi gorffen caei ei gyflogi fel ymarferydd addysg; ac
 - (ii) nad yw'n bwriadu chwilio am waith fel ymarferydd addysg.
- (h) pan gaiff CGA ei hysbysu yn ysgrifenedig o farwolaeth person cofrestredig. Pan ddarperir yr hysbysiad hwn gan berthynas agosaf y person cofrestredig, bydd rhaid cynnwys copi o'r dystysgrif marwolaeth.

(2) Ni fydd is-baragraff (1) (a) yn berthnasol:

- (a) pan fydd CGA yn cael atgyfeiriad sy'n cynnwys honiad o ymddygiad proffesiynol annerbyniol, anghymhwysedd proffesiynol difrifol neu euogfarn o drosedd berthnasol; neu
- (b) lle ymchwilir i'r person cofrestredig gan yr Ysgrifennydd Gwladol (yr Adran Addysg) neu'r GDG.

(3) Pan fo CGA yn dileu cofnod mewn perthynas â pherson cofrestredig, bydd CGA:

- (a) yn rhoi gwybod iddo (ac eithrio pan fydd is-baragraff (1)(h) yn gymwys); a
- (b) yn gallu hysbysu cyflogwr neu asiant presennol y person,

ynglŷn â'r rhesymau dros ddileu'r cofnod.

(4) Ni fydd unrhyw beth yn y Rheol hon yn atal CGA rhag dileu cofnod ar y Gofrestr a wnaed drwy gamgymeriad neu gywiro unrhyw fân-wallau a allai ymddangos ar y Gofrestr.

Mynediad i'r Gofrestr

- 21- (1) Gallai CGA ryddhau enwau personau cofrestredig ar y Gofrestr mewn dull a bennir gan CGA.
- (2) Bydd CGA yn rhoi copi o'r wybodaeth a nodir ar y Gofrestr yn erbyn enw person cofrestredig, i'r person cofrestredig hwnnw, ar gais;
- (3) Os gofynnir amdani gan gyflogwr neu asiant neu ddarpar gyflogwr neu asiant person cofrestredig, bydd CGA yn rhoi i'r sefydliad hwnnw'r wybodaeth a nodir yn Rheoliad 8 o *Reoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Prif Swyddogaethau) (Cymru) 2015* fel y'i diwygiwyd.
- (4) Pan dderbynnir cais gan aelod o'r cyhoedd, gall CGA ei hysbysu a yw person yn berson cofrestredig ai peidio.
- (5) O dan Rheoliad 8 o *Reoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Prif Swyddogaethau) (Cymru) 2015* fel y'i diwygiwyd, gall CGA ddarparu gwybodaeth a nodir ar y Gofrestr i Lywodraeth Cymru, yr Ysgrifennydd Gwladol (yr Adran Addysg) gan gynnwys trwy'r Coleg Cenedlaethol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth, y GDG a'r Cyngorau Addysgu Cyffredinol yn y Deyrnas Unedig ac Iwerddon.

Rhestr o bersonau a gofrestrwyd yn flaenorol

- 22- (1) Bydd CGA yn cadw manylion yr ymarferwyr addysg sydd wedi'u dileu o'r Gofrestr.

Darpariaeth gwasanaeth dros dro neu achlysurol

- 23- (1) Nid yw'r Rheolau hyn yn berthnasol i ddarpariaeth gwasanaeth dros dro neu achlysurol o dan Gyfarwyddeb 2005/36/EC yr UE. Penderfynir ar geisiadau o'r fath yn unol â'r darpariaethau yn y Gyfarwyddeb.

Cyfansoddiad a chyfarfodydd

Aelodau pwyllgorau

- (1) Mae'r pwyntiau canlynol yn ymwneud â Phwyllgor Addasrwydd.
- (2) Bydd Pwyllgor yn cynnwys tri pherson ar y lleiaf. Y cworwm ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor fydd tri, ac mae'n rhaid i'r rhain gynnwys:
 - (a) un aelod lleyg neu fwy;
 - (b) un neu ragor o bersonau cofrestredig o'r un categori cofrestru â'r person cofrestredig sy'n destun y gweithrediadau asesu addasrwydd.
- (3) Wrth sefydlu Pwyllgor, bydd CGA yn ystyried cydraddoldeb ac amrywiaeth, ei Gynllun Iaith Gymraeg statudol ac unrhyw safonau sy'n benodol gymwys i CGA yn unol â *Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011*.
- (4) Pan fydd Pwyllgor yn asesu addasrwydd ymgeisydd a phan fydd aelod:
 - (a) yn amharod; neu
 - (b) yn methu â bod yn aelod bellach,ac nid oes cworwm bellach, torrir yng nghanol y penderfyniad a chaiff Pwyllgor newydd ei benodi i ystyried y mater.
- (5) Wrth ystyried atgyfeiriad, pan fo unrhyw aelod o Bwyllgor o'r farn y gallai arsylwr teg a gwybodus dybio fod ganddo/ganddi wrthdaro buddiannau, bydd yr aelod hwnnw'n gwneud datganiad fel sy'n briodol. Gallai hyn arwain, yn dilyn cyngor cyfreithiol, at ddiarddel yr aelod rhag eistedd ar y Pwyllgor mewn perthynas â'r asesiad addasrwydd hwnnw.
- (6) Yn unol â pharagraff (5), pan fydd aelod o'r Pwyllgor yn perthyn i'r un undeb neu gymdeithas broffesiynol â'r ymgeisydd, ni fydd hyn ynddo'i hun yn gyfystyr â gwrthdaro buddiannau at ddibenion y Rheol hon.

Cadeiryddion

- (1) Bydd Cadeirydd gan bob Pwyllgor Addasrwydd.
- (2) Yn absenoldeb y Cadeirydd a benodir o dan baragraff (1), bydd y Pwyllgor yn penodi rhywun arall o blith ei aelodau i weithredu fel y Cadeirydd.

Cyfarfodydd

- (1) Caiff Pwyllgor ei gynnull ar unrhyw adeg ac mewn unrhyw leoliad fel sy'n briodol yn nhyb swyddog a awdurdodir yn briodol drwy anfon hysbysiadau priodol at yr aelodau a ddetholir ar gyfer y Pwyllgor hwnnw.

Caiff Pwyllgor Addasrwydd ei gynnull fel arfer cyn pen chwe wythnos ar ôl i'r swyddog a awdurdodir yn briodol gyflwyno atgyfeiriad iddo.

- (2) Caiff swyddogion CGA:
 - (a) fod yn bresennol ym mhob cyfarfod Pwyllgor;
 - (b) ond ni chânt gymryd rhan wrth i Bwyllgor ddod i'w benderfyniad.

Pleidleisio a gwneud penderfyniadau

- (1) Caiff unrhyw benderfyniad ei wneud gan Bwyllgor drwy bleidlais gan aelodau'r Pwyllgor hwnnw.
- (2) Caiff unrhyw gwestiwn a aiff i bleidlais Pwyllgor ei gyflwyno ar ffurf cynnig drwy law Cadeirydd y Pwyllgor.
- (3) Ni chaiff unrhyw aelod sy'n bresennol mewn cyfarfod Pwyllgor ymatal rhag pleidleisio pan aiff unrhyw gwestiwn i bleidlais.
- (4) Pan aiff cwestiwn i bleidlais, bydd y Cadeirydd:
 - (a) yn galw ar yr aelodau i bleidleisio o blaid neu yn erbyn y cynnig; ac
 - (b) yn datgan a yw'r cynnig wedi'i gario neu a yw'n syrthio, fel sy'n briodol.
- (5) Pan fydd nifer y pleidleisiau ar gyfer unrhyw gynnig yn gyfartal, ystyrir bod y cynnig wedi'i ddatrys o blaid yr ymgeisydd.

Ymgynghorydd cyfreithiol neu ymgynghorydd proffesiynol arall

- (1) Bydd CGA yn cynnig i Bwyllgor Addasrwydd a sefydlir o dan y Rheolau hyn wasanaethau unrhyw ymgynghorydd cyfreithiol a/neu ymgynghorydd proffesiynol arall fel sy'n ofynnol, i weithredu fel ymgynghorydd yn ystod cyfarfod.
- (2) Pan fydd angen cyngor cyfreithiol a/neu gyngor proffesiynol arall ar Bwyllgor a ddarperir iddo gan yr ymgynghorydd cyfreithiol a/neu ymgynghorydd proffesiynol arall y mae CGA yn cynnig ei wasanaethau, bydd yr ymgynghorydd cyfreithiol a/neu ymgynghorydd proffesiynol arall a benodir yn gwneud datganiad ysgrifenedig mewn perthynas â natur y cyngor a geisiwyd ac a gafwyd gan y Pwyllgor.

- (3) Ni fydd yr ymgynghorydd cyfreithiol a/neu'r ymgynghorydd proffesiynol arall yn berson sydd wedi annerch y Pwyllgor yn flaenorol mewn perthynas â mater y mae'r Pwyllgor yn gofyn am gyngor yn ei gylch mewn unrhyw rôl heblaw fel ymgynghorydd cyfreithiol neu ymgynghorydd proffesiynol arall.